Chwaraeon RhCT
Sport RCT

# Llongyfarchiadau..

# YSGOL GYNRADD GYMUNED Y MAERDY



12 Diwrnod y Nadolig 2025
Enillydd 2

Chwaraeon RhCT
Sport RCT

# YSGOL GYNRADD GYMUNED Y MAERDY

Eleni enwebodd Ysgol Gynradd Gymuned y Maerdy chwech o ddisgyblion Blwyddyn 6 i fod yn Llysgenhadon Ifainc dros eu hysgol. Cafodd y chwech o blant eu henwebu oherwydd eu cariad at chwaraeon, eu sgiliau arwain a'u hawydd i fod yn fodelau rôl.

Aeth y grŵp i gynhadledd hyfforddi ym mis Hydref, ac ers hynny maen nhw wedi cynllunio cyfres o sesiynau wedi'u hanelu at ddisgyblion 4-7 oed. Nod y sesiynau yma yw datblygu llythrennedd corfforol ac annog y bobl ifainc i gadw'n heini. Maen nhw hefyd wedi sefydlu clwb amser cinio sydd â dros 40 plentyn yn mynychu bob wythnos. Mae effaith y sesiynau yma wedi bod yn hynod gadarnhaol, ac mae'r Llysgenhadon bellach yn edrych i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol. Maen nhw'n cynllunio i weithio gyda phobl ifainc eraill o ysgolion cyfagos yn y clwstwr i drefnu achlysuron mwy - gan ddatblygu cyfleoedd i ragor o bobl ifainc gadw'n heini.